

Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru

Adroddiad terfynol

'Nid yw arwahanrwydd fel y cyfryw yn rhinwedd mewn strwythur addysg; nid yw'n werth ymladd drosto oni bai ei fod yn cyfoethogi profiad addysgol disgyblion.'^{*}

^{*} '...distinctiveness in an education structure is no virtue of itself; it is worth fighting for only if it enriches the educational experience of pupils.' Gareth Elwyn Jones a Gordon Wynne Roderick, *A History of Education in Wales* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2003, tudalen 211, cyfieithiad awdur yr adroddiad).

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Datblygiad y cwricwlwm cenedlaethol a'r Cwricwlwm Cymreig	2
Y Cwricwlwm Cymreig	2
Adnoddau dysgu ac addysgu	3
1. Y Cwricwlwm Cymreig	5
Cwestiwn 1: A ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddisgyblaeth hanes yn y dyfodol?	5
Cwestiwn 2: Os penderfynir yn erbyn cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddisgyblaeth hanes yn unig, beth fyddai'r ffyrdd gorau o sicrhau bod elfennau'r Cwricwlwm Cymreig yn cael eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm?	7
Argymhellion y Cwricwlwm Cymreig	11
2. Y pwyslais ar hanes Cymru ac ar stori(straeon) Cymru ar ddysgu hanes ac ar y rhaglen astudio gyfredol	12
3. Ydy'r hanes a ddysgir ar draws pob sector yn talu digon o sylw i'r ymchwil diweddaraf a'r adnoddau newydd sydd ar gael am ddatblygiad hanesyddol Cymru o'r cyfnodau cynharaf hyd at yr unfed ganrif ar hugain?	20
Argymhellion hanes	21
Atodiad 1: Aelodau'r tasglu	23
Atodiad 2: Y broses ymgynghori	24
Atodiad 3: Dyfyniadau	26

Cyflwyniad

Datblygiad y cwricwlwm cenedlaethol a'r Cwricwlwm Cymreig

Ffrwyth Deddf Ddiwygio Addysg 1988 yw'r cwricwlwm cenedlaethol sydd gyda ni yng Nghymru heddiw. Cyn hynny, er bod meysydd llafur penodedig i bob pwnc arholiad, nid oedd gorchmynion cwricwlwm penodedig ar gyfer plant dan 14 mlwydd oed. Dau bwnc yn unig oedd yn orfodol, sef addysg grefyddol ac addysg gorfforol. Roedd y Gymraeg hefyd yn bwnc orfodol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ond nid oedd rhaid ei dysgu o gwbl mewn ardaloedd eraill. Fel arall, roedd gan bob ysgol unigol y rhyddid i ddewis y pynciau i'w dysgu, yn ogystal â'r agweddau ar y pynciau hynny a'r dulliau o'u cyflwyno i'w dysgwyr.

Ond er bod y rhyddid hwn yn caniatáu i athrawon da lunio profiadau dysgu oedd yn berthnasol i'w dysgwyr, ac yn adlewyrchu'r datblygiadau diweddaraf yn y pwnc, roedd hefyd yn golygu bod amrywiaeth mawr yn safon addysg ar draws ysgolion y wlad. Er bod nifer o resymau dros y penderfyniad i gyflwyno cwricwlwm cenedlaethol ym 1988, un ohonynt oedd pryder dros yr amrywiaeth hwn.

Y Cwricwlwm Cymreig

Y bwriad gwreiddiol oedd i sefydlu cwricwlwm cenedlaethol ar y cyd i Gymru a Lloegr. Bu Cymru a Lloegr yn un, yn gyfansoddiadol ac yn ymarferol, ers canrifoedd, a'r un oedd eu cyfundrefn addysg. Ond yn dilyn cryn ymgyrchu, cytunwyd y dylid creu rhaglenni astudio gwahanol yng Nghymru mewn rhai pynciau megis hanes a daearyddiaeth. Bu Cymdeithas Athrawon Hanes Cymru yn flaenllaw yn yr ymgyrch hwn i sicrhau cwricwlwm penodol i Gymru. Mewn pynciau eraill, megis mathemateg a gwyddoniaeth, yr un fyddai'r cwricwlwm craidd yn y ddwy wlad. Yn ystod y broses o ddatblygu'r cwricwla cenedlaethol, roedd cydweithredu agos rhwng Cynghorau Cwricwlwm Cymru a Lloegr, a rhwng y pwyllgorau pwnc i gyd hefyd, er sicrhau cysondeb rhwng y ddau gwricwlwm.

Nod yr ymgyrchu dros gwricwlwm ar wahân oedd sicrhau cwricwlwm cenedlaethol i Gymru fyddai'n adlewyrchu diwylliant, amgylchfyd, economi a hanes Cymru, a'r dylanwadau a ffurfiodd y wlad gyfoes. Ond canfyddodd ACAC¹ angen am gyfarwyddyd pellach er cyflawni'r nod hwn, ac ym 1993 cyhoeddodd ganllawiau ar *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig*. Dilynwyd hynny gyda chanllawiau a chyfarwyddiadau pellach wrth i'r cwricwlwm gael ei adolygu². Serch hynny, tra

¹ Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru, corff olynol Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC): yn ddiweddarach ACCAC – Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru; ers 2006 yn rhan o Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Am adroddiad cynhwysfawr a manwl ar y broses o ddatblygu'r cwricwlwm yng Nghymru a'r Cwricwlwm Cymreig, gweler *A History of Education in Wales* (2003) tudalennau 198–214. Bu'r Athro Emeritws Gareth Elwyn Jones yn aelod o'r Pwyllgorau Hanes a ddatblygodd y rhaglenni astudio gwreiddiol ar gyfer Cymru a Lloegr.

² Gweler Kevin Smith, 'A Critical Discourse Analysis of Developing the Curriculum Cymreig: the Language of Learning Welshness' (Prifysgol Miami, 2010: traethawd doethuriaeth, heb ei gyhoeddi) am ddadansoddiad treiddgar o'r broses o ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig ac o ganllawiau 2003 yn arbennig.

bod gan wledydd eraill gwricwla cenedlaethol yn unig, mae gan Gymru cwricwlwm cenedlaethol statudol, a dogfen atodol sydd hefyd yn statudol.

Canlyniad datganoli ym 1999 oedd datblygu cyfundrefn addysg fwyfwy annibynnol yng Nghymru. Y bwriad gwreiddiol oedd i adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol bob pum mlynedd. Ni ddigwyddodd hynny, er y bu adolygiadau yng Nghymru ym 1995–6, 2000 a 2008.

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygiad pellach ym mis Hydref 2012 i ystyried sut y byddai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd a'r profion cysylltiedig yn effeithio ar y cwricwlwm presennol a'r trefniadau asesu sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru. Fel rhan o'r adolygiad ehangach hwn, sefydlodd y Gweinidog dasglu gorchwyl a gorffen i edrych yn benodol ar sut mae'r Cwricwlwm Cymreig a hanes/straeon Cymru, yn cael eu haddysgu.

Dechreuodd y tasglu hwn ei waith ar ddechrau mis Tachwedd, a chyhoeddodd adroddiad interim ar ddiwedd Ebrill 2013. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar hwn tan Fehefin 21. Ceir manylion am y broses ymgynghori yn Atodiad 2. Ymatebodd mwyafrif sylweddol o unigolion a sefydliadau yn gadarnhaol iawn i'r adroddiad a'i argymhellion, ac adlewyrchir hynny yn yr fersiwn terfynol hwn, yn enwedig y galw clir am gwricwlwm newydd i Gymru unfed ganrif ar hugain.

Cafodd yr adroddiad terfynol ei gyflwyno i'r Gweinidog ym mis Gorffennaf 2013, a chwblhawyd cam cyntaf yr adolygiad ehangach erbyn mis Medi. Roedd hyn yn cynnwys casglu tystiolaeth, ymgynghori â rhanddeiliaid ac arbenigwyr allweddol, a gwneud dadansoddiadau, ar gyfer paratoi adroddiad i'r Gweinidog ym mis Medi. Roedd gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn rhan o'r cam hwn, ac wedi helpu i baratoi'r adroddiad terfynol.

Bydd ail gam yr adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2014. Bydd hwnnw'n cynnwys nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm presennol yng Nghymru, a hynny yn sgil cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Disgwylir i bopeth fod yn ei le erbyn mis Medi 2014.

Yn ogystal â hyn, cafodd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2012. Ddiwedd mis Ionawr 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod ar y cyfan yn derbyn holl argymhellion yr adolygiad. Ymhlith pethau eraill, bydd cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn parhau yng Nghymru, a hynny o fewn fframwaith diwygiedig a mwy trylwyr Bagloriaeth Cymru. O bryd i'w gilydd, bydd hyn yn golygu dilyn trywydd gwahanol i Loegr a gweddill y DU, ond serch hynny bydd llawer o gymwysterau yn dal yn gyffredin rhyngom. Sicrheir hefyd bod llwybrau cynnydd cyfrwng Cymraeg clir yn cael eu cynnig.

Adnoddau dysgu ac addysgu

Roedd angen adnoddau ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol newydd, a chafodd ACAC ei ariannu i gomisiynu cyhoeddwyr i ddarparu adnoddau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer y pynciau hynny â rhaglen astudio gwahanol yng Nghymru, a fersiynau Cymraeg o adnoddau ar gyfer pynciau â'r un rhaglen astudio yng

Nghymru a Lloegr. Byddai panel o athrawon dosbarth yn cwrdd yn flynyddol i benderfynu'r blaenoriaethau comisiynu ar gyfer pob pwnc yn y cwricwlwm. Roedd y farchnad ar gyfer yr adnoddau hyn yn rhy fach i sicrhau elw i gyhoeddwr masnachol heb gymorthdal gan y llywodraeth.

Ym 1996 cyhoeddwyd yr adnoddau hanes cyntaf ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3³, er enghraifft, ac mae adnoddau addas wedi eu cyhoeddi ar gyfer pob pwnc yn rheolaidd ers hynny.

Cyn hynny, bu prinder adnoddau addysgol addas i ysgolion Cymru yn destun pryder ers blynyddoedd lawer. Bu'n rhaid i athrawon naill ai defnyddio adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer Lloegr, gan eu haddasu a/neu eu cyfieithu eu hunain os oedd rhaid, neu ddefnyddio adnoddau a gyhoeddwyd gan weisg yng Nghymru, na fyddai o anghenraid yn addas i'w cynlluniau gwaith. Am resymau ariannol hefyd, ni fyddai'r adnoddau a gyhoeddwyd yng Nghymru mor ddeniadol â rhai Lloegr, ac mae'r bosibl i ansawdd isel adnoddau hanes Cymru effeithio ar y profiad dysgu.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, yn ogystal â'r cyhoeddwr, yn gyfrifol am hysbysebu a marchnata'r adnoddau a gomisiynwyd ar gyfer y cwricwlwm yng Nghymru. Mae swyddogion y Cyngor yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion ledled Cymru, gan wneud tua 700 o ymweliadau bob blwyddyn. Er gwaethaf hyn i gyd, mae athrawon yn dal i gyfeirio at brinder adnoddau addas.

³ *Storiâu Hanes Cymru/Welsh History Stories* (Caerdydd) ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2, a *Ffocws ar Hanes Cymru/Focus on Welsh History* (Aberystwyth) ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

1. Y Cwricwlwm Cymreig

Yn y dyfodol, a ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddisgyblaeth hanes, a, os na ddylid gwneud hynny, beth yw'r ffyrdd gorau o sicrhau cyflwyno elfennau'r Cwricwlwm Cymreig ar draws y cwricwlwm?

Ar hyn o bryd, y disgwyliad statudol yw bod dysgwyr 7 i 14 yn cael cyfleoedd ymhob pwnc i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion Cymru'n ddiwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol a ieithyddol. Dylai dysgwyr 14 i 19 gael cyfleoedd i ymgymryd yn weithredol i ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru fel rhan o'r byd cyfan. Mae hwn yn un o hawliau Dysgu Craidd dysgwyr 14 i 19 ac mae'n ofynnol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae hanes yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy wneud hanes lleol a hanes Cymru yn ffocws yr astudiaeth a chynorthwyo dysgwyr i ddeall y ffactorau sydd wedi llunio Cymru a gwledydd eraill heddiw.

Mae datganiadau tebyg am gyfraniadau pynciau eraill i'r Cwricwlwm Cymreig i'w cael yn yr adran 'Dysgu ar draws y cwricwlwm' yn rhagymadrodd pob rhaglen astudio.

Cwestiwn 1: A ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddisgyblaeth hanes yn y dyfodol?

Ni ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddisgyblaeth hanes yn unig. Credai'r tasglu'n unfryd unfarn y byddai gwneud hynny yn andwyol i'r cysyniad o'r Cwricwlwm Cymreig ei hun, i ddisgyblaeth hanes ac i'r pynciau eraill yn y cwricwlwm hefyd.

Ni allai'r grŵp ganfod unrhyw fanteision o gwbl o gyfyngu'r Cwricwlwm Cymreig i Hanes fel disgyblaeth. Rhydd pob pwnc gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o Gymru, ac **ni ddylai'r Cwricwlwm Cymreig ystyried y gorfennol yn unig: dylai fod yn gyfrwng i gynorthwyo dinasyddion Cymru'r presennol a'r dyfodol i ddeall eu byd.**

Roedd y tasglu o'r farn y byddai'r anfanteision canlynol i gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy hanes. Byddai'n:

- debyg o amddifadu pynciau eraill o'u cyfraniad i'r Cwricwlwm Cymreig, gan fod llawer mwy i'r Cwricwlwm Cymreig na hanes yn unig
- ei gwneud yn fwy anodd i ysgolion roi pwyslais cryfach ar gymryd agwedd gweithredol at ddysgu trwy gyflwyno celf, technoleg a gwyddoniaeth mewn cyd-destun cyfoes a lleol
- cyfyngu Rhaglen Astudio Hanes yn ormodol, a thueddu i'w gwneud yn gul ac yn blwyfol
- gorlwytho'r rhaglen astudio â chynnwys, gan beryglu'r ffocws ar sgiliau
- yn agored i gael ei ddehongli fel ymgais i droi hanes yn bropaganda dros genedlaetholdeb

- golygu bod diddordeb disgyblion yn y Cwricwlwm Cymreig yn llwyr ddbynnol ar eu diddordeb mewn hanes fel pwnc – os nad oedd hanes yn apelio atynt yna byddai dim cyfle arall i ennyn eu diddordeb yn y Cwricwlwm Cymreig
- yn debyg o arwain dysgwyr i gysylltu Cymreictod â'r gorffennol yn unig
- anymarferol, o ystyried cyn lleied o amser dysgu a gaiff hanes, a'r ffaith ei fod yn opsiynol o Gyfnod Allweddol 4 ymlaen
- rhoi'r cyfrifoldeb am ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig ar athrawon unigol, pan ddylai fod yn gyfrifoldeb ysgol gyfan.

Barn y tasglu oedd bod enghreifftiau da ar gael ar hyn o bryd o waith sydd yn integreiddio Cwricwlwm Cymreig i bynciau ar draws y cwricwlwm, ond bod agweddau ysgolion tuag at y Cwricwlwm Cymreig yn amrywio'n fawr iawn⁴. Nid yw pob ysgol yn deall y gofyn i sicrhau bod y Cwricwlwm Cymreig yn berthnasol ac yn ystyrion i ddysgwyr. Tra bod rhai ysgolion yn llwyddo i roi dimensiwn Cymreig i bob pwnc, a hynny mewn ffordd addas, integredig i'r pwnc a'r testun dan sylw, mae nifer o ysgolion yn ei:

- gyfyngu i rai pynciau'n unig, er enghraifft y Gymraeg fel pwnc, y celfyddydau (megis cerddoriaeth a chelf) a hanes
- trin fel atodiad i'r rhaglenni astudio 'go iawn', gan lunio cynlluniau gwaith yn gyntaf, ac ychwanegu rhyw elfennau o'r Cwricwlwm Cymreig wedyn.

Roedd aelodau o'r sector gynradd o'r farn bod y tuedd bresennol i gynllunio'r dysgu ar sail themâu, yn lle pynciau cwricwlaidd, yn cynnig mwy o gyfleodd i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig yn effeithiol, ac roeddynt yn fwy hyderus bod y Cwricwlwm Cymreig yn cael ei gyflwyno'n effeithiol yn eu sector hwy. Serch hynny, y duedd mewn rhai ysgolion yw pwysleisio'r lleol a'r Cymreig, a hynny o bosibl ar draul y cysylltiadau rhwng Cymru a'r byd. Nid oes llawer o dystiolaeth chwaith fod ysgolion yn rhoi'r cyd-destun Cymreig ehangach i'w hastudiaethau lleol.

Roedd y cynrychiolwyr o'r sector uwchradd yn pryderu bod tueddiadau cyfredol mewn rhai ysgolion uwchradd i:

- gwtogi'r amser a roddir i hanes yn yr amserlen ysgol
- a/neu ei ddysgu trwy gyfrwng cyrsiau dyniaethau integredig
- a/neu ei ddysgu fel rhan o gylchdro o bynciau dyniaethol

⁴ Seilir y sylw hwn yn bennaf ar argraffiadau'r aelodau hynny o'r tasglu sydd yn ymwneud â nifer o ysgolion gwahanol, trwy eu gwaith fel ymgynghorwyr lleol, neu mewn amgueddfeydd a phrifysgolion. Ategwyd hyn gan yr athrawon ysgol sydd yn aelodau o'r tasglu, ar sail eu profiad eu hun mewn gwahanol ysgolion a'u trafodaethau gyda'u cyd-weithwyr. Cyhoeddwyd yr arolwg diweddaraf ar y Cwricwlwm Cymreig gan Estyn ym 2006 (*Cwricwlwm Cymreig: Phase 2*). Rhydd hwn arolwg o'r sefyllfa yr adeg honno, seiliedig ar adroddiadau ysgol ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2003/4 2005/6 ac ar ymweliadau yn ystod 2005/6 i nifer bach o ysgolion uwchradd ac un ysgol arbennig. Noda'r adroddiad (tudalen 3) fod dysgu'n dda'n neu'n well mewn tri-chwarter o'r ysgolion, ond roedd diffygion yng ngwybodaeth dysgwyr o'r Cwricwlwm Cymreig mewn chwarter o ysgolion Cymru, ac roedd safon isel i'r gwaith mewn rhai o'r rhain.

- a/neu gywasgu rhaglen astudio hanes Cyfnod Allweddol 3 i flynyddoedd 7 ac 8
- a/neu ddechrau dysgu cyrsiau TGAU ym Mlwyddyn 9

i gyd yn lleihau yr amser sydd ar gael yn ymarferol i ddysgu rhaglen astudio cyfredol hanes, heb sôn am y Cwricwlwm Cymreig.

Roedd aelodau o'r sector addysg uwch yn awyddus i ni ystyried effaith unrhyw newidiadau ar y myfyrwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau TGAU ac UG/U yng ngholegau addysg bellach.

Cwestiwn 2: Os penderfynir yn erbyn cyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig trwy ddisgyblaeth hanes yn unig, beth fyddai'r ffyrdd gorau o sicrhau bod elfennau'r Cwricwlwm Cymreig yn cael eu cyflwyno ar draws y cwricwlwm?

Barn y tasglu oedd y dylid integreiddio'r dimensiwn Cymreig ymhob pwnc, lle bo hynny'n berthnasol ac ystyrlon. Mae'r diffiniadau sydd ar gael ar hyn o bryd yn fan cychwyn da i'r newid hwn, er y bydd angen eu datblygu ymhellach.

Rhydd llyfr diweddar ar fathemateg⁵ enghreifftiau clir o'r modd y gellir rhoi persbectif Cymreig i bynciau fel mathemateg sydd yn rhannu'r un rhaglen astudio graidd ag ysgolion yn Lloegr. Dywaid yr awdur yn ei ragymadrodd 'Rhaid deall natur y profiad Cymraeg a Chymreig o rifo er mwyn deall ein hagweddau cyfoes at rifau.'⁶ Cynnwys y llyfr drafodaeth ar egwyddorion a phosau mathemategol, gan eu gosod mewn cyd-destun Cymreig, er enghraifft trwy ddadansoddi'r rhesymau dros y gwahanol ddulliau o gyfrif yn Gymraeg.

Y nod ymhob pwnc fyddai integreiddio hanfodion y pwnc gyda'r perspectif Cymreig⁷ a gofynion yr unfed ganrif ar hugain, pan mae hynny yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r pwnc ei hun ac o Gymru. Nid oes rhaid iddo fod yn artiffisial neu'n amherthnasol, a dylai rhoi cyfle i ddysgu'n uniongyrchol trwy wneud a phrofi. Ni ddylai neb anelu at roi het Gymreig ar ben y Mona Lisa. Ond na ddylid chwaith wahanu dealltwriaeth o dueddiadau, cysyniadau a digwyddiadau ehangach oddi wrth eu perthnasedd i Gymru. Rhydd egwyddorion sylfaenol Cwricwlwm Seland Newydd enghraifft ddiddorol o ddull posibl o wneud hynny⁸.

Roedd y tasglu o'r farn y dylid ceisio gwella dealltwriaeth o oblygiadau'r Cwricwlwm Cymreig ymhlith athrawon ar draws bob sector oedran a gallu, ac ar draws bob pwnc. Dylai cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ymholi ymhob pwnc, a rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu'n weithredol, gan ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy wneud a phrofi yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn oddefol.

⁵ Gareth Ffowc Roberts, *Mae Pawb yn Cyfrif: stori ryfeddol y Cymry a'u rhifau* (Llandysul, 2012)

⁶ Tudalen 15.

⁷ Wrth gyferio ar y 'perspectif Cymreig' neu'r 'dimensiwn Cymreig', nid yw'r tasglu am awgrymu mai dim ond un perspectif neu ddimensiwn sydd. Mae amrywiad eang o berspectifau i bob pwnc.

⁸ <http://nzcurriculum.tki.org.nz/Curriculum-documents/The-New-Zealand-Curriculum/Principles>

Byddai cyfyngu'r Cwricwlwm Cymreig i rai pynciau'n unig yn:

- cyfyngu profiadau'r dysgwyr
- cyfyngu cyfleoedd athrawon i ddysgu eu pynciau o safbwynt Cymreig
- cyfyngu ar botensial y Cwricwlwm Cymreig i gyfrannu at ddulliau dysgu arloesol a pherthnasol i ddysgwyr yr unfed ganrif ar hugain
- cryfhau'r argraff mai rhywbeth ymylol neu atodol yw'r Cwricwlwm Cymreig
- israddio dimensiwn Cymreig y Cwricwlwm Cenedlaethol yn y pendraw.

Mae potensial gan bob cwricwlwm neu faes llafur i droi'n gaethiwus o geidwadol trwy beidio â datblygu gyda threigl amser a datblygiadau cymdeithas. Bu newidiadau cymdeithasol mawrion ers llunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyntaf chwarter canrif yn ôl. Datganoli yw un o'r newidiadau amlycaf, ond nid yr unig newid o bell ffordd, yn ystod y blynyddoedd hyn. Dylid manteisio ar y cyfle i edrych o'r newydd ar bob pwnc yn y Cwricwlwm, gyda'r bwriad o'u adolygu i gwrdd â gofynion cymdeithas yr unfed ganrif ar hugain a Chymru ddatganoledig.

Mae'r enw 'Cwricwlwm Cymreig' yn faen tramgwydd yn ei hun, ym marn y tasglu. Nid yw'n gwricwlwm ynddo'i hun ar hyn o bryd, ond yn agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r gair 'Cymreig' hefyd yn peri anhawster, oherwydd nid yw'r gwahaniaeth rhwng 'Cymraeg' a 'Chymreig' yn glir i bawb, yn enwedig i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Ystyriodd y tasglu a ddylid argymhell newid yr enw, gyda'r nod o:

- osgoi amwysedd yr enw presennol
- tynnu sylw at gyd-destun ehangach y dimensiwn Cymreig.

Byddai enw megis 'Cymru a'r Byd' yn:

- cryfhau'r dilyniant o Gyfnodau Allweddol 2 a 3 i Gyfnod Allweddol 4 a 5
- tanlinellu mai nid peth plwyfol a chul yw seilio profiad dysgu ar gynefin y dysgwyr, oherwydd mae disgwyl i'r Cwricwlwm Cymreig integredig ehangu eu gorwelion hefyd.

Ond yn y diwedd penderfynodd y tasglu na fyddai newid yr enw yn gymorth at wireddu'r nod gwreiddiol pan sefydlwyd y cysyniad o Gwricwlwm Cymreig: sicrhau cwricwlwm cyflawn i Gymru sy'n integreiddio dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol i'r dysgu ac addysgu ymhob pwnc. Mae'r adolygiad presennol o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru yn gyfle delfrydol i wneud hynny. Byddai hynny yn osgoi'r problem o haen ychwanegol o 'Gymreictod' y gellir ei ddatgysylltu, a'r perygl o ychwanegu cynllun newydd arall gan y Llywodraeth at amserlen sydd eisioes yn llawn.

Rhaid cydnabod y gall y fath integreiddio beryglu'r dimensiwn Cymreig os nad yw hwnnw eisoes wedi ei wreiddio'n effeithiol yn ethos yr ysgol. Bydd angen arweiniad cadarn, clir ei weledigaeth a hyfforddiant parhaol ar athrawon i sicrhau bod yr egwyddorion, yr arfer a'r adnoddau yn gyfarwydd iddynt.

Mae'r tasglu o'r farn y dylai'r cwricwlwm cenedlaethol nesaf yng Nghymru gymryd syniadau a delfrydau'r Cwricwlwm Cymreig presennol fel ei fan cychwyn. Ei nod ddylai fod i adeiladu ar y rhain er creu cwricwlwm cenedlaethol holistig go iawn i Gymru'r unfed ganrif ar hugain, gyda dimensiwn Cymreig a pherspectif rhyngwladol. O hyn ymlaen, ni ddylid cyfeirio at 'gwricwlwm cenedlaethol' a 'Chwricwlwm Cymreig' ond at 'cwricwlwm Cymru' yn unig.

Dylai datblygwyr y cwricwlwm newydd weithio'n agos gyda gweithgorau o arbenigwyr ymhob pwnc, o bob sector addysg, er manteisio ar arbenigedd academiaidd ac ymarferol. Amcanion y gweithgorau arbenigol hyn byddai:

- cytuno ar ddiffiniadau clir a manwl o'r dimensiwn Cymreig a'r perspectif rhyngwladol yn y pwnc hwnnw
- bod ar gael i gynnig cymorth arbenigol ac ymarferol i'r consortia a'r cymunedau dysgu proffesiynol, wrth iddynt ddatblygu
- cynorthwyo athrawon i adnabod ethos eu cymunedau a sut y gellir datblygu cynlluniau gwaith, gweithgareddau dysgu ac adnoddau perthnasol fydd yn eiddo i bob gymuned ac yn hybu arfer da yn y pwnc dan sylw.

Dylent hefyd lunio meini prawf ar gyfer pob pwnc fydd yn gymorth i athrawon benderfynu a yw'r dimensiwn Cymreig yn:

- rhan naturiol, ystyrion ac organig o'r topig dan sylw
- pwysleisio'r dull gweithredol o ddysgu trwy brofi ac ymholi
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr lunio eu barn personol
- cynnig ystod o ddelweddau o Gymreictod a chyfleoedd i'w cymharu
- cynorthwyo dysgwyr i ddeall a herio delweddau ystrydebol
- ymestyn gorwelion y dysgwyr yn ogystal â'u gwreiddio yn eu diwylliant eu hun⁹
- ystyried cefndir diwylliannol ac ieithyddol y dysgwyr a'r gymuned y maent yn rhan ohoni
- cynnig cyfleoedd i ddadlau gyda neu herio'r cynnwys.

Byddai sefydlu gweithgorau arbenigol hefyd, o bosibl, yn cwrdd ag un o wendidau'r gyfundrefn addysg bresennol, sef diffyg cydlyniant a pharhad o'r naill gyfnod allweddol i'r nesaf, sy'n arbennig o amlwg yn y cyfnod trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 ac yn y pynciau sylfaen.

Dylai aelodau'r gweithgorau hyn fod yn ymwybodol o'r pwysau gwaith ar athrawon ac ar adnoddau ysgol, a gweithio gyda'r cymunedau a chyda'r athrawon a seondir i Hwb er darparu canllawiau clir ac ymarferol i ddangos sut y gellid defnyddio cynlluniau gwaith ac adnoddau presennol ysgolion fel sail i'r datblygiadau newydd. Dylai un o'u blaenoriaethau fod ar botensial integreiddio'r perspectif Cymreig i leihau baich gwaith athrawon trwy gynnig cyfleoedd i osgoi ailadrodd a gwaith dianghenraid, ond dylent hefyd fod yn gyfrifol am wirio safon yr adnoddau a ddarperir ar Hwb a Hwb+.

⁹ Dylai hwn adlewyrchu amrywiaeth profiad a diwylliant yng Nghymru heddiw ac yn y gorffennol.

Mae hefyd angen dwys am well ddull o gasglu a rhannu arfer da wrth gyflwyno'r Cwricwlwm Cymreig ar hyn o bryd, ac mae'r tasglu'n argymhell rhai dulliau ymarferol o wneud hynny cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Er enghraifft, dylai:

- Estyn gynnwys yr enghreifftiau hyn yn adran 'Arfer Da' eu gwefan.
- Hwb a Hwb+ Llwyfan Dysgu i sefydlu fforwm cenedlaethol i rannu:
 - deunyddiau hyfforddi
 - ystod o adnoddau digidol addas yn y Gymraeg a'r Saesneg i gynorthwyo dysgu'r Cwricwlwm Cymreig, gan eu hadolygu a'u diweddarau'n gyson
 - enghreifftiau o arfer da mwy anffurfiol na rhai Estyn, megis gwaith enillwyr cystadleuaeth flynyddol Menter Treftadaeth Ysgolion Cymru
 - trafodaethau pwnc ar draws sectorau.

Dylid cefnogi hynny trwy gylchlythyr electronig rheolaidd at ysgolion a chyrrff perthnasol eraill. Dylid hefyd wirio safon y deunyddiau a roddir ar Hwb, a gwneud hynny'n gyson. Byddai hyn i gyd yn gymorth i osod sylfaen ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol newydd.

Bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant mewn swydd ar gyfer pob athro/athrawes ymhob pwnc, i drefniadau sefydlu athrawon newydd ac i adnoddau ar-lein ac ystafell ddothbarth. Dylid cymryd i ystyriaeth anghenion athrawon sy'n symud i Gymru o wledydd eraill hefyd. Rhydd datblygiad y cymunedau dysgu proffesiynol ac ar Hwb gyfle i bawb elwa ar a chyfrannu i'r datblygiadau newydd hyn yn y cwricwlwm.

Er sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol sectorau addysg, dylid adolygu manyleb pob cymhwyster yng Nghymru er mwyn canfod sut y sicrheir y persbectif Cymreig ynnddi. Ceir cyfle i wneud hynny nawr oherwydd y newidiadau fydd yn digwydd i gymwysterau yng Nghymru yn dilyn Adolygiad Cymwysterau 14 i 19 a drafodir yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn.

Yn y gorffennol, er enghraifft, fe'i gwnaethpwyd yn orfodol i fanylebau TGAU a Safon Uwch/Uwch Gyfrannol Hanes gynnwys canran o hanes Prydain. Tra y gellid gwneud rhywbeth tebyg er sicrhau'r persbectif Cymreig, rhaid osgoi newidiadau artiffisial ac amherthnasol. Felly dylid ymgynghori gydag arbenigwyr perthnasol mewn sefydliadau addysg uwch a chyrrff proffesiynol, er cynnal safonau, ac er sicrhau bod y dimensiwn Cymreig yn rhan organig o'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a ddatblygir. Ni ddylid cyfyngu'r newidiadau hyn i bynciau academaidd yn unig. Mae'r pwyslais cynyddol ar gynladwyaeth, defnyddio adnoddau lleol a chynnyrch lleol yn awgrymu dulliau ymarferol er sicrhau dimensiwn Cymreig i bob agwedd ar addysg bellach.

Dylai'r manylebau diwygiedig wneud cysylltiadau echblyg ymhob achos â'r thema 'Cymru, Ewrop a'r Byd' yn y Fagloriaeth Gymreig.

Argymhellion

- 1. Dylai'r fersiwn nesaf o'r cwricwlwm cenedlaethol i Gymru gymryd fel man cychwyn syniadau a delfrydau'r Cwricwlwm Cymreig presennol, gan adeiladu arnynt yn hytrach na'u trin fel atodiad. Dylai fod ganddo ddimensiwn Cymreig a pherspectif rhyngwladol.**
- 2. Dylai datblygwyr y cwricwlwm newydd gydweithio'n agos gyda gweithgorau o arbenigwyr ymhob pwnc ac o bob sector addysg, er cytuno ar ddiffiniadau cliriach a manylach o'r perspectif Cymreig yn y pwnc hwnnw. Dyma fyddai man cychwyn datblygu'r cwricwlwm newydd.**
- 3. Dylid datblygu meini prawf i gynorthwyo athrawon ac eraill i integreiddio'r persbectif Cymreig i bynciau'r cwricwlwm mewn ffordd ystyrlon.**
- 4. Dylid datblygu a mewnosod dull mwy effeithiol o gasglu a rhannu enghreifftiau o arfer da cyfredol mewn datblygu'r Cwricwlwm Cymreig, a hynny ar draws Cymru.**
- 5. Bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant mewn swydd ar gyfer pob athro/athrawes ymhob pwnc, i drefniadau sefydlu athrawon newydd ac i adnoddau ar-lein ac ystafell ddosbarth.**
- 6. Dylai fod yn orfodol i bob gymhwyster a gynigir yng Nghymru adlewyrchu persbectif Cymreig lle mae hynny'n berthnasol.**

2. Y pwyslais ar hanes Cymru ac ar stori(straeon) Cymru ar ddysgu hanes ac ar y rhaglen astudio gyfredol

Rhagymadrodd

Cefndir hanesyddol

Caniataodd y rhyddid a fu cyn sefydlu'r cwricwlwm cenedlaethol¹⁰ i athrawon ddysgu hanes o safbwynt Cymreig, a/neu gynnwys elfen gref o hanes lleol yn y maes llafur, pe dymument. Roedd hefyd yn caniatáu iddynt beidio â chyfeirio at hanes Cymru neu hanes lleol o gwbl, a dysgu hanes unrhyw wlad arall, pe dymument. Er nad oedd unrhyw reidrwydd arnynt i wneud hynny, dewisai nifer sylweddol o athrawon ddysgu fersiwn o hanes Prydain a ddominyddwyd gan hanes Lloegr.

Mae dylanwad y gred mai hanes Lloegr yw hanes 'go iawn' i'w ganfod o hyd yn yr arfer o gyfeirio at hanes Cymru fel pwnc ar wahân, neu fel atodiad i hanes Lloegr. Hanes Lloegr yw'r hanes swyddogol, fel petai, yr hanes a ddysgid yn ysgolion y wlad ers i'r gyfundrefn addysg gyhoeddus ddatblygu yn oes Victoria. Nid oedd hynny o reidrwydd yn golygu bod rhaid hepgor hanes Cymru o'r ysgolion yn gyfangwbl. Am fod Cymru wedi bod yn rhan o Loegr, yn ymarferol ac yn gyfansoddiadol, am gynifer o ganrifoedd, rhaid oedd astudio hanes Cymru yng nghyd-destun ehangach hanes Lloegr. Ond pan ychwanegwyd hyn at ddiffyg hyder hanesyddol y Cymry yn eu hunaniaeth, yn rhy aml dim ond yr hanes Prydeinig Lloegr-ganolog fyddai'n cael ei ddysgu. Yn hytrach na dehongli Cymru o fewn cyd-destun Prydeinig, gadawyd Cymru allan yn gyfangwbl o'r hanes a ddysgid mewn ysgolion.

Profodd yn anodd i dorri'r patrwm hwn. Mae'r rhaglen astudio hanes wedi rhoi sylw priodol i hanes lleol a hanes Cymru o'r cychwyn, ac mae arfer da hefyd yn cynghori dechrau gyda'r cyfarwydd a'r lleol gan ddatblygu i ystyried yr anghyfarwydd a'r byd ehangach. Serch hynny, profiad y tasglu yw bod nifer o ddysgwyr yn ysgolion Cymru yn dysgu mwy am hanes Lloegr nac am hanes eu bro a'u gwlad eu hunain, a hanes ehangach Prydain gyfan. Cred y tasglu hefyd nad oes llawer o sylw yn cael ei roi i wledydd eraill Prydain a bod hefyd tuedd i ganolbwyntio ar ystod cul o bynciau yn hanes Ewrop a'r byd.

Pan luniwyd y cwricwlwm cenedlaethol ym 1989, gosodiad agoriadol y Cyngor Rhagarweiniol ar Hanes oedd:

Credwn mai diben pennaf hanes yng nghwricwlwm yr ysgolion yw rhoi map o'r gorffennol i'r ddisgyblion [sic], drwy iddynt gael gwybodaeth hanesyddol, fydd yn eu helpu i ddeall cynhyrsgaeth a hunaniaeth eu cymdeithas eu hunain, ac eiddo cymdeithasau eraill.¹¹

¹⁰ Gweler adran gyntaf yr adroddiad hwn.

¹¹ Pwyllgor Hanes Dros Gymru y Cwricwlwm Cenedlaethol, *Cyngor Rhagarweiniol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru* (Y Swyddfa Gymreig, 1989, tudalen 4)

Barn y tasglu yw bod y geiriau hyn yn parhau i ddiffinio rôl hanes yng nghwricwlwm ysgolion Cymru. Cred y dylai straeon Cymru fod yn rhan ganolog o unrhyw gwrs hanes ar bob lefel yng Nghymru. Ni ddylid eu hystyried yn rhywbeth i'w atodi i hanes Lloegr, lle mae'n berthnasol i'r hanes hwnnw. Ni ddylid chwaith eu hychwanegu at gyrsiau a grewyd ar gyfer gwledydd eraill. **Cymru yw cartref ein dysgwyr, a dylai map o'u gorffennol fod mor gyfarwydd iddynt â'r ffordd adre o'r ysgol.**

Mae dadl barhaus am natur a chynnwys cwricwlwm hanes cenedlaethol, yn enwedig o ystyried y duedd i bwysleisio agweddau cadarnhaol ar hanes y wlad dan sylw. Ond yn ymarferol, mae cwricwlwm hanes pob gwlad yn canolbwyntio ar hanes y wlad honno. Mewn arolwg ar gynnwys nifer o wahanol gwricwla, o Roeg a Thwrci i UDA a'r DU [sic], dywed Mark Donnelly a Claire Norton '... the history curriculum of a country focuses almost exclusively on the history of that state'¹². Eu barn yw bod hynny oherwydd '... the history taught in schools plays an integral part in the dissemination and reinforcement of national identities. It provides students with a sense of self, an idea of where they came from, and of the values of their nation'¹³.

Felly datblygodd yr hanes a ddysgir yn ysgolion Cymru yn ystod y ganrif cyn llunio'r cwricwlwm cenedlaethol. Fel y dangoswyd uchod, hanes Lloegr oedd ffocws yr hanes hwnnw, yn ysgolion Cymru a Lloegr fel ei gilydd, oherwydd doedd dim cyfundrefn addysg annibynnol na statws cyfansoddiadol gan Gymru yn y cyfnod hwnnw. Bu'n rhaid ymgyrchu i gael rhaglen astudio hanes i Gymru ar wahân i un Lloegr. Er i'r ymgyrch brofi'n llwyddiannus, ymddengys fod dylanwad yr hen ffocws ar hanes Lloegr yn dal yn gryf yn ysgolion Cymru. Mae hynny'n tanseilio nod y rhaglen astudio cyfredol, gyda'i phwyslais ar le canolog hanes Cymru o fewn cyd-destun ehangach.

Gellid cymharu hyn â chwricwlwm cyfredol yr Alban, lle mae hanes y wlad yn ganolog i'r hyn a astudir, ond ceir cyd-destun ehangach iddo, a phwysleisir dylanwadau rhyngwladol¹⁴. Nid yw'r tasglu o blaid gosod 'rhaglen astudio hanes Cymru' yn lle'r rhaglen astudio cyfredol, ond am weld mwy o gydbwysedd yn yr hyn a ddysgir ac a addysgir mewn ysgolion, fel bod yr elfen Gymreig ganolog yn fwy gweladwy. Byddai am gynnwys rhai topigau na sydd ar gael mewn rhestr topigau Lloegr-ganolog, ond byddai'n cynorthwyo dysgwyr i ddeall gyd-destun Cymru yn y byd modern.

Dylid pwysleisio nag yw'r tasglu yn gwrthwynebu dysgu hanes Lloegr fel y cyfryw. I ddeall hanes Cymru, rhaid deall ei gyd-destun hanesyddol, sef dylanwad aruthrol Lloegr ar ddatblygiad Cymru a chenhedloedd eraill Prydain, a hynny dros ganrifoedd lawer. Pryder y tasglu yw bod datblygiad gwladwriaeth Prydain gyfan yn cael ei ddysgu o berspectif Lloegr yn unig. Nid yw hynny'n helpu dysgwyr 'i ddeall cynhyrsgaeth a hunaniaeth eu cymdeithas eu hunain, ac eiddo cymdeithasau eraill'¹⁵ ar wahân i Loegr.

¹² M. Donnelly and C. Norton, *Doing History* (Abingdon, 2011), tudalen 125.

¹³ *Ibid.*

¹⁴ Gweler <http://www.educationscotland.gov.uk/studyingScotland/about.asp>

¹⁵ Gweler nodyn 11.

Mae llawer o'r drafodaeth ar y math o hanes a ddysgir mewn ysgolion yn tueddu i bwysleisio cynnwys ffeithiol y cwricwlwm. Ond mae llawer mwy i ddisgyblaeth hanes na chronoleg a gwybodaeth ffeithiol yn unig. Tra bod cronoleg a gwybodaeth ffeithiol yn cynnig fframwaith er deall y gorffennol a pherthnasedd gwahanol gyfnodau, datblygiadau a gweithredoedd unigolion, rhydd hanes gyfleoedd hefyd i feithrin dealltwriaeth o:

- achos ac effaith
- pwysigrwydd tystiolaeth
- rhan safbwynt a gogwydd yn y broses o lunio dehongliadau o hanes
- arwyddocâd digwyddiadau, newidiadau a chymeriadau hanesyddol.

Rhydd hefyd gyfleodd i ddatblygu'r sgiliau o:

- ymholi hanesyddol
- defnyddio ystod o ffynonellau
- gwerthuso tystiolaeth
- meddwl yn ddadansoddiadol
- gwneud cymhariaethau a chysylltiadau hanesyddol
- paratoi a chyflwyno dadl neu adroddiad
- gwerthuso dadleuon ac adroddiadau.

Un o'r agweddau pwysicaf ar ddisgyblaeth hanes yw'r cyfle a rydd i ddod i ddeall bod pob naratif neu ddadl hanesyddol yn agored i feirniadaeth, ac mai barn amodol yw pob barn hanesyddol. **Nid oes un hanes yn unig: mai gan bob unigolyn ei brofiad ei hun a'i berspectif unigryw ar y gorffennol.** Hwyrach y dylid cyfeirio'n gyson at ddysgu gwahanol fersiynau neu straeon o hanes, yn hytrach na hanes yn unigol. Mae derbyn hynny yn fodd i dderbyn a pharchu gwahanol fersiynau o hanes, a'u gwerthuso yn ôl meini prawf mwy gwrthrychol na'n gwybodaeth bersonol o'r gorffennol neu fersiwn cyfarwydd ohono.

Mae dysgu hanes yn effeithiol yn fodd i ddatblygu dinasyddion gweithredol y dyfodol. Gall gynorthwyo dysgwyr i ddeall eu hanes eu hun, a'r ffordd y mae'r gorffennol wedi ffurfio'r presennol, ond yn bwysicach na hynny, gall eu cynorthwyo i ymholi i'r hanes hwnnw, a phwyso a mesur gwahanol fersiynau o hanes. Gall roi arf yn erbyn propaganda o bob math yn nwylo pob dinesydd.

Dysgu ac addysgu

Unwaith eto, barn y tasglu yn gyffredinol oedd bod **amrywiaeth mawr yn y dulliau o ddysgu ac addysgu hanes Cymru yn ysgolion Cymru ar hyn o bryd.**

- Mae gwahaniaethau rhwng y sector cynradd a'r uwchradd, a hefyd rhwng ysgolion unigol yn yr un sector¹⁶.

¹⁶ Yn ystod y cyfnod 2007–11, er enghraifft, safonwyd asesiadau athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, a sylwodd y safonwyr ar yr amrywiaeth yn yr enghreifftiau a gyflwynwyd ar hanes Cymru. Ni chyflwynodd rhai ysgolion unrhyw dystiolaeth o hynny o gwbl, er ei fod yn ganolog i'r rhaglen astudio hanes yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.

- Ymddengys fod nifer o ysgolion yn dal dan ddylanwad yr hanes Lloegr-ganolog a ddysgid yn gyffredinol cyn sefydlu'r cwricwlwm cenedlaethol.
- Mewn achosion eraill, ymddengys fod cyffredinolrwydd enghreifftiau o gwricwlwm cenedlaethol Lloegr wedi dylanwadu'n gryf ar y dewis o dopigau, ac ar y ffocws yn y topigau hynny.
- Tuedd yr ysgol gynradd yw pwysleisio'r dimensiwn lleol i hanes wrth gyflwyno hanes Cymru. Nid yw hanes lleol mor amlwg yng nghynlluniau gwaith yr ysgolion uwchradd, ac mae'r sylw a roir i hanes Cymru yn amrywio hefyd.
- Ar draws y sectorau, yn anfynych y cysylltir hanes lleol a'r cyd-destun ehangach.
- Prin yw'r ysgolion hynny sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymholi i wahanol bersbectifau ar hanes Cymru¹⁷.

O ganlyniad, amddifadir llawer o ddysgwyr o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth perthnasol iddynt, wrth iddynt geisio cysylltu â hanes eu cynefin a hanes Cymru ei hun.

Rhaid cofio hefyd fod hanes yn ddewisol yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5, yr union adeg pan mae datblygiad deallusol dysgwyr yn eu galluogi i ddeall cysyniadau cymhleth a meddwl yn fwy haniaethol. Dyma'r adeg hefyd pan y maent yn datblygu'n ddinasyddion ifanc. Mae hanes yn bwnc gorfodol i'r ystod oedran hon mewn nifer o wledydd eraill yn y Gymuned Ewropeaidd. Y bwriad gwreiddiol wrth lunio'r cwricwlwm cenedlaethol oedd sicrhau bod hanes yn bwnc gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 hefyd. Barn y tasglu yw y dylid ystyried a oes modd adfer y syniad hwn, efallai i gychwyn trwy gryfhau'r elfen hanesyddol yn y Fagloriaeth Gymreig. Nid yw rhoi'r gorau i hanes yn 14 oed yn fodd i ddatblygu gwell ddealltwriaeth o hanes ymhlith pobl ifanc Cymru. Byddai cynyddu'r elfen o hanes yn y Fagloriaeth Gymreig yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau hanesyddol ar adeg yn eu haddysg addas i'w hoedran, a'u cymhwysu i gyd-destun ehangach na phwnc arholiad yn unig.

Barn y tasglu hefyd yw bod gorbwyslais ar rai cyfnodau a digwyddiadau yng nghynlluniau gwaith ysgolion, a bod hynny'n cyfyngu profiad dysgwyr o hanes. Bwriad gwreiddiol astudio nifer o'r un cyfnodau yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yng Nghyfnod Allweddol 3 (y cyfnod modern cynnar, y bedwaredd ganrif ar bymtheg, agweddau ar yr ugeinfed ganrif) oedd darparu cyfle i ddyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr wrth iddynt aeddfedu yn feddyliol. Mae disgwyl i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2 ymholi i ffyrdd o fyw yn y cyfnodau hyn, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o nodweddion y gwahanol gyfnodau. Byddant wedyn yn ymholi'n ddyfnach i'w hanes gwleidyddol, economaidd, crefyddol a chymdeithasol yng Nghyfnod Allweddol 3. Yn ymarferol, ymddengys fod rhai topigau poblogaidd sydd yn amherthnasol i'r cynllun hwn, megis priodasau Harri VIII, yn cael eu cyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 2, cyn cael eu hail-adrodd yn Nghyfnod Allweddol 3, a hynny heb feithrin y dyfnder priodol bob amser.

¹⁷ Er bod dealltwriaeth o ddehongliadau o hanes yn un o'r sgiliau pwnc a nodir yn y rhaglen astudio ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3, ac yn nod asesu ym manylebau Hanes TGAU a Safon UG/U, caiff nifer o athrawon drafferth gydag ef, a thueddant naill ai ei osgoi, neu ei ddehongli fel datblygu dealltwriaeth o duedd.

Mae enghreifftiau o arfer da a/neu arloesol, ac o gyd-weithio rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill (megis amgueddfeydd, archifdai, llyfrgelloedd a'r sector addysg uwch). Ond prin yw'r enghreifftiau o rannu'r arfer hwn gydag ysgolion eraill, o gydweithio rhwng ysgolion yn yr un ardal ac o barhad a dylanwad cynlluniau arloesol. Er enghraifft, mae enillwyr cystadleuaeth flynyddol Menter Treftadaeth Ysgolion Cymru yn enghreifftio arfer da mewn dysgu hanes lleol a hanes Cymru, ond prin yw'r cyfeiriadau at rannu'r arfer hwnnw gydag ysgolion eraill. Mae rhannu adnoddau ac arfer da gyda chydweithwyr yn ddull effeithiol iawn o godi safonau a chysondeb darpariaeth, a gwelir hynny'n glir mewn gwledydd megis y Ffindir.

Mae'r cyfleoedd i rannu arfer da wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Bu'r Gymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg (CYDAG) yn fforwm i athrawon pwnc yn y sector cyfrwng Gymraeg gwrdd yn gyson i rannu adnoddau ac arfer, ond mae datblygiadau diweddar wedi peri lleihad yng ngwaith a dylanwad CYDAG. Does dim byd tebyg ar gael i athrawon yn y sector Saesneg ers i Gymdeithas Athrawon Hanes Cymru beidio â bod. Ers nifer o flynyddoedd bu Panel Ymgynghorol y Dyniaethau hefyd yn gyfrwng i rannu gwybodaeth yn y maes hwn. Roedd aelodau'r panel hwn yn cynnwys ymgynghorwyr daearyddiaeth a hanes o'r awdurdodau lleol, a chynrychiolwyr gwasanaethau addysg sefydliadau treftadol megis yr Amgueddfa Genedlaethol a Chadw. Daeth y panel i ben eleni, yn dilyn newidiadau yn yr awdurdodau lleol. Rhydd y cymunedau dysgu proffesiynol gyfle newydd i athrawon gyd-weithio, ond mae'n rhy gynnar eto i asesu cyfraniad y rhain.

Cynigiwyd nifer o resymau eraill dros y gwendidau hyn. Mae rhai o'r rhain yn ymarferol, megis adnoddau, ond mae eraill yn fwy anodd i'w diffinio, ac yn adlewyrchu dylanwadau, agweddau a chredoau cyffredin. Mae'n amhosibl i unrhyw raglen astudio nac adnoddau dysgu newydd fynd i gwrdd â'r angen i newid agwedd rhai athrawon a dysgwyr at hanes lleol a hanes Cymru, am ei fod yn gofyn newid agweddau ehangach. Ond awgryma poblogrwydd cyfresi teledu megis *The Story of Wales* (BBC, 2012), ac erthyglau'r *New History of Wales* yn y *Western Mail* (2010–12: fe'u cyhoeddwyd fel llyfrau wedyn), fod modd i ddeunyddiau blaengar a deniadol afael yn nychymyg y cyhoedd, a thrwy hynny gael dylanwad cadarnhaol efallai ar addysg hefyd. Dylid nodi bod y ddwy enghraifft hon ar gael yn Saesneg yn unig¹⁸, ond gallai'r modd y cyfieithwyd darnau o *The Story of Wales* a'u darparu'n barhaus trwy gyfrwng Addysg Cymru iTunesU gynnig model posibl ar gyfer addasu adnoddau newydd wrth iddynt gael eu datblygu.

Gall ymweld â safleoedd hanesyddol gyfoethogi ac ymestyn profiadau dysgwyr, ac er y gwneir defnydd da o ymweliadau felly, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2, nid yw hynny mor wir am Gyfnod Allweddol 3. Mae rhesymau ymarferol dros hynny, a chost cludiant yw un o'r rhain, ond mae ysgolion yr Alban yn integreiddio ymweliadau a'r amgylchfyd lleol i'w gwaith ysgol, a rhydd hynny enghraifft y dylid ei hystyried yng Nghymru. Er sicrhau effeithiolrwydd ymweliadau

¹⁸ Er bod darnau ohonynt ar gael yn Gymraeg bellach: gweler <https://itunes.apple.com/gb/itunes-u/stori-cymru/id580130164>

felly, bydd angen i'r sector treftadaeth weithio'n agosach â'r sector addysg (gweler hefyd y sylwadau pellach ar hyn yn y drafodaeth ar adnoddau).

Anhawsterau cyfredol wrth geisio rhoi pwyslais priodol ar hanes a hanesion Cymru

Adnoddau

- Diffyg digon o adnoddau addas, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg, a diffyg wybodaeth am y rhai sydd ar gael.
- Anhawster dod o hyd i adnoddau hanes Cymru sy'n flaengar o ran dulliau dysgu a chyfoes eu cynnwys.
- Y cyfoeth o adnoddau da, blaengar a chyfoes ar gyfer hanes Lloegr.
- Holl bresenoldeb hanes Lloegr¹⁹ ar draws y cyfryngau, o'r gemau cwis i gyfresi hanes safonol ar y sianelau Prydeinig a rhyngwladol.

Dylanwad TGAU

Er nad oedd yr orfodaeth yn yr hen Safon Cyffredinol i ateb un cwestiwn ar hanes Cymru wedi sicrhau dysgu nac addysgu hanes Cymru mewn dull effeithiol a chydlynus, roedd gwneud i ffwrdd gyda'r gofyn hwnnw wrth gyflwyno TGAU wedi gostwng statws hanes Cymru yng ngolwg athrawon. Roedd y penderfyniad yn ddiweddarach i wneud canran o hanes Prydain yn orfodol yng nghyrsiau TGAU yn adlewyrchu pryder mwy cyffredinol am effaith y newid hwn parthed â hanes Prydain. Mawr yw dylanwad gofynion a disgwyliadau arholiadau 16+ ar gyfundrefn addysg Cyfnod Allweddol 3, ac mae nifer o athrawon yn ystyried Cyfnod Allweddol 3 fel cyfnod paratoi ar gyfer TGAU. Os nad oes pwyslais priodol ar hanes Cymru yn TGAU, nid yw'n rhyfedd does dim lle amlwg iddo yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae gan agweddau a blaenoriaethau TGAU ddylanwad ar y dysgu a'r addysgu yng Nghyfnod Allweddol 3. Byddai creu cwricwlwm sy'n integreiddio hanes Cymru i gyd-destun hanes ehangach yn golygu cynnwys elfen integredig o hanes Cymru ym manylebau TGAU.

Agweddau a chredoau ysgolion

- Ethos ynysig ysgolion: mae ysgol yn fyd bach ynddo'i hun, gyda'i blaenoriaethau, traddodiadau, rhaglenni a chynlluniau gwaith arbennig. Mae'n anodd trefnu cyfarfodydd tu allan i waith yr ysgol ei hun neu newid trefniadau ysgol i gwrdd â gofynion ysgol neu sefydliad arall. Mae llawer o ysgolion yn yr un ardal hefyd yn cystadlu â'i gilydd, ac nid yw hynny'n hyrwyddo cydweithredu.
- Cred cyffredinol ymhlith athrawon hanes bod angen trosglwyddo corff penodol o wybodaeth er mwyn sicrhau bod sylfeini gwybodaeth hanesyddol yn ddiogel gyda'u dysgwyr. Diffiniant hwn yn aml yn nhermau eu profiad a'u diddordebau eu hun.

¹⁹ Mae hefyd toreth o adnoddau ar gael ar gyfer dysgu hanes Natsïaid yr Almaen, opsiwn poblogaidd iawn yn TGAU a Safon UG/U.

- Mae pwyslais cynyddol yn y sector gynradd ar ddatblygu sgiliau hanesyddol sy'n galluogi dysgwyr i benderfynu eu hun ar ffocws eu hymholiad, darganfod gwybodaeth perthnasol, a'i werthuso. Oherwydd hynny, nid oes cymaint o bwyslais bellach yn y sector gynradd ar gynlluniau gwaith ffurfiol a gwersi a gynlluniwyd ymlaen llaw.
- Diffyg gwybodaeth o hanes Cymru ymhlith athrawon yn gyffredinol, yn deillio yn wreiddiol o ddiffygion eu haddysg ysgol a phrinder cyfleodd i ddilyn cwrs sy'n integreiddio hanes Cymru a hanes Prydain gyfan, Ewrop a thu hwnt.
- Diffyg hyder a brwdfrydedd dros ddysgu hanes Cymru, yn deillio o ddiffyg gwybodaeth a phrofiad, a'r canfyddiad bod hanes lleol a hanes Cymru ei hun yn gul, ac yn wahanol i hanes 'go iawn', sef hanes Lloegr, Ewrop a'r byd ehangach. Adlewyrchir hynny yn agwedd negyddol rhai myfyrwyr hanes yn y brifysgol tuag at yr opsiynau hanes Cymru a gynigir.
- Prinder amser dysgu ar gyfer hanes mewn ysgolion, a phrinder amser ymchwil/darllen/paratoi i athrawon. Mae hynny'n wir yn achos nifer o bynciau, wrth gwrs, ond mae tuedd ar hyn o bryd i gyfuno hanes a Daearyddiaeth er mwyn dilyn cwrs yn y dyniaethau.

Agweddau a chredoau ehangach

- Diffyg cylchrediad eang a phoblogaidd yng Nghymru i'r cyhoeddiadau hynny sydd yn trafod materion Cymreig, tra bod y gwrthwyneb yn wir am gyhoeddiadau o Loegr. Mae prinder cyhoeddiadau hefyd: does dim papur newydd cenedlaethol gan Gymru, er enghraifft. Mae tuedd cyhoeddiadau Saesneg i gyferio at Loegr fel 'Prydain' yn gamarweiniol, a daw hynny'n arbennig o glir yn y trafodaethau ar y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm cenedlaethol yn Lloegr. Prin yw'r cyfeiriadau at y cwricwla cenedlaethol eraill ym Mhrydain, ac fel rheol, disgrifir cwricwlwm Lloegr fel 'the national curriculum'.
- Y modd y cyflwynir hanes Cymru o bersbectif Saesneg hyd yn oed mewn rhai sefydliadau treftadol yng Nghymru. Cyfeiriwyd yn y cyd-destun hwn at y duedd a ganfyddir i or-bwysleisio yr agweddau hynny o dreftadaeth Cymru, megis y cestyll, sy'n adlewyrchu perspectif y goresgynwyr na safbwynt y brodorion. Mae angen sicrhau bod sefydliadau treftadol Cymru i gyd yn gadarn yn eu dehongliadau perthnasol, yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn Gymraeg a Saesneg. Os oes angen, dylid darparu hyfforddiant er sicrhau bod staff y sefydliadau hyn yn hyderus wrth ddehongli hanes, hanesion a diwylliannau Cymru.

Y rhaglen astudio

Cytunodd y tasglu fod y rhaglen astudio gyfredol yn rhoi blaenoriaeth echblyg i hanes Cymru ym mhob cyfnod a astudir yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 (ar wahân i'r ymholiad i hanes cyfoes ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3). Ond awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael i'r tasglu nad yw pob ysgol yn cwrdd â'r gofynion hyn, a hynny am amrywiaeth o resymau (gweler uchod am drafodaeth pellach ar hynny).

Ar ben hynny, mae rhai cyfnodau sy'n allweddol er deall hanes Cymru wedi eu hepgor o'r rhaglen astudio, er enghraifft:

- y cyfnod rhwng OC 400 a 1000, pan ddatblygodd tradoddiad Cristnogol y seintiau, a theyrnasoedd annibynnol Cymru
- hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, pan ddechreuodd y Diwygiad Methodistaidd a wnaeth gymaint i ffurfio traddodiad anghydfurfiol Cymru.

Yn ystod y broses ymgynghori dderbyniodd y tasglu nifer o awgrymiadau difyr ac adeiladol ar gyfer ail-strwythuro ystod y rhaglen astudio presennol. Serch hynny, er bod y tasglu o'r farn o hyd na fyddai'n ymarferol nac yn ddymunol i ystyried cynnwys pob agwedd o bob cyfnod yn unrhyw raglen astudio, na disgwyl i athrawon ddechrau o'r dechrau eto, mae o'r farn y dylid ail-strwythuro'r rhaglen astudio bresennol. Byddai'r rhaglen newydd yn adeiladu ar y rhaglen bresennol, ac yn datblygu ohoni. Byddai'n cynnig dewis amrywiaeth o astudiaethau dwys ac astudiaethau datblygiad, er hyrwyddo dysgu ac addysgu agweddau ar hanes lleol a hanes Cymru sy'n rhoi pwyslais priodol ar y cyd-destun Prydeinig, Ewropeaidd a byd-eang. Byddai'n bosibl cynnwys rhai themâu addas at rai ardaloedd penodol yng Nghymru, megis thema ar ddatblygiad y diwydiant copr, neu ar hanes morwriaeth.

Serch hynny, hoffai'r tasglu bwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r arfer da sydd yn bodoli eisoes. Dylai rhaglen astudio ddiwygiedig adeiladu ar y gorau o'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, tra'n mynd i'r afael ag unrhyw wendidau canfyddedig. Trwy esblygiad, nid chwyldro, y dylid newid cwricwlwm. Ni fyddai'r tasglu am weld gwaith da athrawon yn cael ei ddibrisio, na datblygiadau addawol y blynyddoedd ers sefydlu'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael eu taflu o'r neilltu. Byddai newid rhy sydyn a rhy chwyldroadol yn gosod straen ar adnoddau dynol ac ariannol ysgolion mewn cyfnod o gyni economaidd. Cred y tasglu y gallai'r math o weithgor pwnc a argymhellir uchod gydweithio gydag athrawon a dysgwyr i ddatblygu dull o ddysgu hanes fyddai'n adlewyrchu'r gorau sydd ar gael ar hyn o bryd, ac yn meithrin dulliau blaengar o ddysgu fersiynau o hanes sy'n adlewyrchu sefyllfa bresennol Cymru ddatganoledig ac amrywiol yr unfed ganrif ar hugain.

3. Ydy'r hanes a ddysgir ar draws pob sector yn talu digon o sylw i'r ymchwil diweddaraf a'r adnoddau newydd sydd ar gael am ddatblygiad hanesyddol Cymru o'r cyfnodau cynharaf hyd at yr unfed ganrif ar hugain?

Mae'r adnoddau a gomisiynir gan y Llywodraeth i gefnogi dysgu ac addysgu hanes ar gael trwy'r Cyngor Llyfrau Cymru. Er bod cynrychiolwyr y Cyngor yn ymweld yn rheolaidd â phob ysgol yng Nghymru, ac mae catalog y Cyngor ar-lein hefyd, barn y tasglu yw mai lleiafrif o athrawon hanes ymhob sector sydd yn ymwybodol o'r adnoddau a gynigir ganddynt, yn ddigidol ac ar bapur. Mae gan gyhoeddwyr yn Lloegr farchnad ehangach o lawer, ac felly'r adnoddau i hysbysebu eu cyhoeddiadau yn ehangach ac i gael cyhoeddusrwydd iddynt hefyd. Ond nid yw'r mwyafrif llethol adnoddau hynny'n cefnogi dysgu nac addysgu hanes Cymru.

Gwefannau a ddefnyddir yn bennaf gan athrawon a darpar athrawon, ac fe fydd rhai o'r rhain, megis gwefan y BBC, yn darparu gwybodaeth ar raglenni ar Gymru a/neu hanes Cymru all fod yn gyfrwng i gyflwyno'r ymchwil diweddaraf. Ond bydd defnydd athrawon o hynny yn dibynnu i raddau pell iawn ar eu diddordeb personol yn y pwnc, ac nid yw adnoddau'r BBC ar gael yn y Gymraeg bob amser, sydd yn cyfyngu ar eu defnydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Darperir adnoddau o safon uchel iawn gan nifer o sefydliadau yn y sector treftadaeth, ac ynddynt ceir sylw priodol i'r ymchwil diweddaraf, ond nid yw'r rhain ar gyfer ysgolion bob amser, nac wedi eu cynllunio i gwrdd â gofynion y cwricwlwm yng Nghymru. Nid yw rhai sefydliadau treftadol yn darparu adnoddau addysg fel y cyfryw, a'r duedd yw i bwysleisio'r hanes lleol ar draul y cyd-destun Cymreig ehangach, neu i osod yr hanes hwn o fewn cyd-destun hanes Lloegr.

Ar hyn o bryd anogir athrawon prifysgol i gryfhau eu cysylltiadau gyda myfyrwyr Safon Uwch, a byddai cydweithio i gyfrannu at Lwyfan Dysgu Hwb + yn gyfrwng i wneud hynny. Hwyrach bod modd hefyd i gynnal ysgolion undydd i athrawon ysgol a phrifysgol gydweithio i ddatblygu gweithgareddau ac adnoddau hanes sy'n adlewyrchu'r ymchwil diweddaraf. Serch hynny, er bod cryfhau agenda effaith, sy'n cynnwys ymrwymo i weithio gydag ysgolion, yn rhan o'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY), mae gofynion eraill hefyd ar athrawon prifysgol.

Er bod defnydd helaeth a chynyddol wedi bod ar adnoddau GCaD gan athrawon, roedd safon y rhain yn amrywio'n fawr. Mae datblygiad cyfredol Hwb â photensial aruthrol i hybu ymwybyddiaeth a defnydd o'r ymchwil diweddaraf ac adnoddau newydd, a chafodd groeso brwd gan y tasglu. Oherwydd prinder adnoddau, tuedd i ddefnyddio hen adnoddau sy'n cadarnhau'r ystrydebau traddodiadol (e.e. llun y glöwr yn y bath a dim sôn am waith y fenyw yn y cartref glofaol ac ati).

Mae nifer o'r ffactorau a nodwyd wrth drafod hanes Cymru (gweler Adran 2 uchod) yn berthnasol yma hefyd, yn enwedig diffyg cydweithio a rhannu arfer da.

Er bod enghreifftiau o gydweithredu llwyddiannus ar brosiectau unigol rhwng sefydliadau ymchwil (megis prifysgolion ac amgueddfeydd) ac ysgolion, mae'r

tasglu o'r farn bod diffyg cydweithredu a chyfathrebu cydlynus a pharhaol rhwng y gwahanol sectorau. Mae hyn yn gwanhau dylanwad sectorau addysg uwch a threftadaeth ar yr hanes a ddysgir mewn ysgolion yn gyffredinol.

Rhydd y rhaglen *The Story of Wales*, a'r cyfresi hanes Cymru a gyhoeddwyd gan y *Western Mail* yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gip ar yr ymchwil cyffrous a pherthnasol a wneir yng Nghymru ar hyn o bryd. Ond, yn naturiol ddigon, ni chafwyd arweiniad ar y modd y gellid defnyddio'r ymchwil hwn mewn ysgolion, ac nid oes cyfrwng amlwg i ymchwilwyr ddarganfod a yw eu gwaith yn berthnasol i ysgolion.

Barn y tasglu yw y byddai penodi pwyllgor hanes i Gymru yn creu dolen gyswilt rhwng y byd ymchwil a'r ystafell ddosbarth, a rhydd Hwb+ gyfle i gyflwyno ffrwyth y cydweithredu hwn i athrawon a dysgwyr ledled Cymru mewn cyfrwng hygyrch a phwrpasol.

Argymhellion

- 1. Dylid sefydlu pwyllgor o arbenigwyr hanes, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob sector addysg a sefydliadau perthnasol megis amgueddfeydd. Cyfrifoldeb y pwyllgor fyddai:**
 - hybu cydweithredu a rhannu arfer da
 - datblygu meini prawf arfer da mewn hanes
 - gwirio safon yr adnoddau a gyhoeddir ar Hwb
 - argymhell adnoddau newydd i'w datblygu.
- 2. Dylid penodi cydlynnydd pwnc benodol, i'w ariannu gan Lywodraeth Cymru, i dîm Hwb, er cefnogi gwaith y pwyllgor hwn. Byddai'n hyrwyddo gwaith y pwyllgor arbenigol a hybu cydweithio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Byddai hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi cylchlythyr digidol rheolaidd fyddai'n crynhoi adnoddau newydd, digwyddiadau a datblygiadau ymchwil hanes. Gallai'r swydd hon gynnig model i bynciau eraill er hybu cydweithredu yn y pynciau hynny.**
- 3. Wrth adolgu'r cwricwlwm cenedlaethol dylai'r rhaglen astudio gael ei ail-strwythuro, er mwyn rhoi arweiniad pendant ar y berthynas rhwng hanes lleol, Cymru, Prydain, Ewrop a'r byd ehangach. Y nod fyddai rhoi sylfeini cadarn i ddealltwriaeth hanesyddol dysgwyr tra'n ymestyn eu gorwelion.**
- 4. Dylid datblygu enghreifftiau niferus, pendant ac amrywiol o gynlluniau gwaith sy'n ffocysu ar hanes lleol a hanes Cymru yn eu cyd-destun ehangach ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3. Unwaith i safon y rhain gael ei gwirio, dylent gael eu cynnwys ar Hwb, a'u diweddarau'n gyson.**
- 5. Dylai pob manyleb TGAU Hanes a gynigir yng Nghymru gynnwys elfen integredig a gorfodol o hanes Cymru.**

6. Wrth adolygu'r cymwysterau, dylid ystyried cryfhau'r elfen hanesyddol yn y Fagloriaeth Gymreig.
7. Dylid ymestyn mynediad at yr ardal gydweithio ar-lein a ddarperir gan Hwb+ i'r sector addysg uwch ac i sefydliadau treftadaeth, megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, CADW, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a'r archifdai sirol a sefydliadau lleol eraill trwy CyMAL.
8. Dylid cytuno ar restr o gwestiynau/themâu/topigau penodol i'w datblygu ar Hwb+ fel bod modd i'r sector addysg uwch a'r sector treftadaeth gydweithio gydag athrawon i ddatblygu adnoddau blaengar, seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf, a hynny mewn fformatau sydd yn ddefnyddiol i athrawon.
9. Dylai y deunyddiau mae gan Lywodraeth Cymru yr hawlfraint drostynt gael eu digideiddio a'u gosod ar Hwb fel eu bod ar gael i ysgolion.
10. Dylai fod rheidrwydd ar y cyrff treftadaeth hynny a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (sef Cadw, CBHC, Yr Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol) i fabwysiadu cynlluniau addysg sy'n dangos yn glir sut yr ânt ati i gyfrannu'n adeiladol i lwyddiant y cwricwlwm cenedlaethol a'r Cwricwlwm Gymreig.
11. Dylid hefyd annog y sefydliadau a ariennir gan y Llywodraeth i sicrhau bod y deunyddiau a ddatblygant ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod gan ysgolion fynediad rhwydd iddynt, fel bod modd eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.
12. Dylai'r adnoddau hyn i gyd bwysleisio natur amodol hanes, ac amrywiaeth profiad ymhob cyfnod. Dylent gynorthwyo dysgwyr i wrthgyferbynu a chymharu profiadau gwahanol garfanau o bobl ymhob cyfnod.

'Tlodi cenedl yn ysbrydol ydyw ei thorri oddi wrth ei gorffennol'²⁰.

²⁰ David Thomas, *Hen Longau Sir Gaernarfon* (ail argraffiad, Llanrwst, 2005); dyfynwyd gan Robin Evans, *Merched a'r Môr*, pennod 8, tudalen 1.

Atodiad 1: Aelodau'r tasglu

Dr Elin Jones (Cadeirydd)

Paul Nolan, Ymgynghorydd addysg (Dirprwy Gadeirydd)

Yr Athro Angela John

David Stacey, Olchfa Comprehensive School, Abertawe

Dr Martin Johnes, Prifysgol Abertawe

Dr. Sian Rhiannon Williams, Prifysgol Metropolitaidd Caerdydd

Dr Huw Griffiths, Ysgol Gyfun Bro Myrddin, Sir Gaerfyrddin

Dr Stephanie Ward, Prifysgol Caerdydd

Nicola Thomas, Cornist Park County Primary School, Flintshire

William Rogers, Queen Street Primary School, Blaenau Gwent

Nia Huw, Ysgol Gynradd Llangeitho, Ceredigion

Nia Williams, Cydlynnydd Addysg Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Frank Olding, Swyddog Treftadaeth Blaenau Gwent

John Dilwyn Williams, Archifdy Gwynedd

Cwrddodd y tasglu ar Dachwedd 5, Chwefror 6, Ebrill 9, Mai 15, Gorffennaf 1 a'r 19, a bu cyfathrebu cyson rhyngddynt trwy gyfrwng e-byst wrth weithio ar y ddau fersiwn o'r adroddiad (dros dro a therfynol), yr holiadur a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr adroddiad dros dro a ddigwyddodd rhwng Ebrill 25 a Mehefin 21.

Atodiad 2: Y broses ymgynghori

Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ar **wefan Llywodraeth Cymru** ar Ebrill 25, ynghyd â holiadur yn gofyn am ymatebion i bob un o'r argymhellion ynddo. Cafwyd 220 o ymatebion i'r holiadur hwn, ac roedd dros 80 y cant ohonynt yn cefnogi'r adroddiad a'i argymhellion, er bod llai o nifer yn cefnogi'r argymhellion am sefydlu 'Pencampwyr' a chynnwys elfen orfodol o hanes yn y Bagloriaeth Cymreig.

Ysgrifennodd dros 40 o unigolion a sefydliadau **lythyron** yn ymateb i'r ymgynghoriad, a/neu yn gwneud sylwadau perthnasol am y Cwricwlwm Cymreig a/neu hanes. Unwaith eto, roedd mwyafrif sylweddol yn cefnogi'r adroddiad a'i argymhellion, ond mynegwyd pryderon parthed â sefydlu 'Pencampwyr' a chynnwys elfen orfodol o hanes yn y Bagloriaeth Cymreig. Roedd nifer o'r gohebwyd yn dadlau dros sefydlu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru fyddai'n cymryd Cymru ei hun fel man cychwyn ond byddai'n cynnwys perspectif rhyngwladol. Beirniadodd rhai yr adroddiad am ei argymhellion gwan a sylwadau amwys ar y pwynt hwn.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru **ddeiseb** hefyd, gyda 597 o lofnodion, yn galw am wneud hanes Cymru yn orfodol i bob disgybl o 7 mlwydd oed ymlaen.

Cynhaliwyd dau **gyfarfod cyhoeddus**, un yn Wrecsam (Mehefin 12) ac un yng Nghaerfyrddin (Mehefin 13). Daeth 44 o bobl i'r cyfarfodydd hyn. Trafodwyd nifer o agweddau ar yr adroddiad a'r argymhellion, ac roedd ymateb positif iddynt ar y cyfan, er bod rhai athrawon oedd yn bresennol yn pryderu am yr argymhellion am TGAU a'r **Bagloriaeth Cymreig**. Roedd rhai eto yn dadlau y dylai'r adroddiad fod yn fwy pendant o blaid cwricwlwm newydd i Gymru.

Cyhoeddodd Dr Martin Johnes **erthygl** ar wefan *Click on Wales*, yn amlinellu rhai o ddadleuon yr adroddiad, a chafodd 14 o ymatebion. Roedd wyth o'r rhain yn gefnogol ar y cyfan, a thri yn bendant yn erbyn. Mynegwyd pryder am argymhell elfen orfodol o hanes Cymru yn TGAU, ac am ymarferoldeb rhai o'r argymhellion. Bu **trafodaeth drydar** hefyd ar AddCym, wedi ei drefnu gan Dave Stacey, lle roedd yr ymateb yn fwy amrywiol.

Cyhoeddwyd *erthyglau* am yr adroddiad a'r broses ymgynghori yn y *wasg*, gan gynnwys y *Western Mail* a *Golwg*. Symbylodd yr erthyglau hyn ychydig o ohebiaeth yn y wasg, a bu peth trafodaeth hefyd ar raglenni Radio Wales.

Ymwelodd Cadeirydd y tasglu â 10 o **lyfrgelloedd cyhoeddus** rhwng 12 a 21 Mehefin, sef Llandrindod, Y Trallwng, Aberystwyth, Llangefni, Blaenau Ffestiniog, Casgwent, Blaenafon, Ystrad Mynach, Hwlfordd a Townhill (Abertawe). Hysbysebwyd ei hymweliad ymlaen llaw gan y llyfrgelloedd, a chafodd aelodau o'r cyhoedd gyfle i drafod yr adroddiad a'i argymhellion gyda hi. Ceir blas y trafodaethau yn Atodiad 3.

Cyfrannodd y Cadeirydd gyflwyniad ar yr adroddiad i:

- Fforwm Treftadaeth De Cymru (4 Gorffennaf)
- cynhadledd *Educating the Nation(s)* ym Mhrifysgol Huddersfield (Gorffennaf 6)
- cynhadledd *Holding a Mirror to Michael Gove* yn y Sefydliad dros Ymchwil mewn Addysg (Gorffennaf 16–7)

Wrth baratoi'r adroddiad, ac wrth ymgynghori arno, cwrddodd y Cadeirydd â'r *unigolion* canlynol:

- Ann Keane a Meilyr Rowlands, Estyn
- Alun Morgan, cyn-arolygydd hanes Estyn
- Dr Kevin Smith, Prifysgol Caerdydd
- Dr Glenn Jordan, Cyfarwyddwr Canolfan Hanes a Chelfyddyd Trebiwt, Caerdydd
- Robin Williams, Llywydd Cymdeithas Hanes Diwydiannol Tŷ Rhydychen, Rhisga

a chafodd sgwrsiau dros y ffôn gyda:

- Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru
- Jerome Freeman, Cadeirydd Pwyllgor Cynradd y Gymdeithas Hanes (*The Historical Association*).

Atodiad 3: Dyfyniadau

Sylwadau'r cyhoedd, yn ystod y sgysiau anffuriol yn y llyfgelloedd, wedi eu cofnodi yn yr iaith wreiddiol

Y Cwricwlwm Cymreig

"I suppose it's about learning Welsh, is it?"

"It's just for the Welsh schools, isn't it?"

"Young people need to have a full Welsh perspective on economics and politics to explain the world we live in... If the Cwricwlwm Cymreig is restricted to history only, then Wales is downgraded to the past."

Hanes

"I want my children to know about the important things... the wars... the Holocaust... things like that."

"Dim ond yn cofio gwneud y rhyfeloedd yn yr uwchradd – a'r *Treaty of Versailles*: roedd hwnnw'n dod lan bob tro."

"Young people need to know about the history of the place they live in, if they're going to have any respect for it. And that will give them more self-respect and a more positive outlook on the future, if they can take a pride in their past."

"I love Welsh history, but everything I know about it I learnt *after* I left school. I had to do it all myself, and I think that's wrong."

"I'm ashamed I don't know enough about the history of my own country."

"I liked history in school, until I started GCSE. Then we spent a whole term on the Plains Indians, and nobody ever told me why. I gave it up at Christmas."